Ariennir gan
**Lywodraeth Cymru**
Funded by
**Welsh Government**

# CYNLLUN GRANT DATGARBONEIDDIO CYNALIADWY ARDALOEDD CADWRAETH PARC CENEDLAETHOL ERYRI (EIDDO / ADEILADAU CYHOEDDUS, CYMUNEDOL A MASNACHOL)

# TELERAU AC AMODAU

## 1. RHAGARWEINIAD

1.1 Mae grantiau ar gael yn awr i gynorthwyo gyda gwelliannau effeithlonrwydd ynni a/neu uwchraddio thermol **eiddo cyhoeddus, cymunedol a masnachol** o fewn Ardaloedd Cadwraeth dynodedig y Parc Cenedlaethol, megis Eglwysi/Capeli, Neuaddau Cymunedol, Llyfrgelloedd, Tafarndai Cymunedol, a Siopau Pentref. Gellir ymestyn y diffiniad hwn hefyd i gynnwys adeiladau / eiddo lleol sy'n cefnogi'r gymuned leol lle mae'r adeilad wedi'i nodi yn y Gwerthusiadau Ardal Gadwraeth drafft fel adeilad o bwysigrwydd lleol i'r Ardal.[1] **Nid yw adeiladau preswyl preifat yn gymwys ar gyfer y grant hwn**. Gweinyddir y grantiau gan Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri (Yr Awdurdod) ac fe'u hariennir gan gronfa *Tirweddau Cynaliadwy, Lleoedd Cynaliadwy* Llywodraeth Cymru.

1.2 Fe'ch cynghorir i benodi person(au) â **chymwysterau proffesiynol** i weithredu fel asiant ar eich rhan. Dylai'r cais gael ei gyflwyno gan Bensaer Cofrestredig neu Syrfëwr Siartredig Achrededig Cadwraeth, sy'n gyfrifol am baratoi'r holl dendr, dogfennau contract a gweinyddiaeth y contract wedi hynny. Bydd y Pensaer/Syrfëwr yn gyfrifol am oruchwylio'r gwaith ac am awdurdodi taliadau/rhandaliadau yn unol â gofynion y math safonol priodol o gontract adeiladu. Mae cost penodi pensaer neu syrfëwr ar gyfer paratoi cynlluniau ac amserlenni gwaith ac ati yn gymwys ar gyfer grant.

1.3 Gallwch ofyn am benderfyniad cychwynnol 'mewn egwyddor', i sefydlu faint o gymorth grant y byddech yn debygol o'i gael. Bydd hyn yn ddarostyngedig bod y manylion terfynol yn dderbyniol a chymeradwyaeth yr Awdurdod a Llywodraeth Cymru, os bydd angen.

## 2. CYMHWYSEDD I GAEL GRANT

2.1 Dim ond **EIDDO / ADEILADAU CYHOEDDUS, CYMUNEDOL A MASNACHOL** o fewn / yn union gerllaw ffin yr Ardaloedd Cadwraeth dynodedig a'r Gwerthusiadau drafft sy'n gymwys am gymorth grant. Nid yw adeiladau preswyl preifat yn gymwys ar gyfer y grant hwn. (Cyfeirnod Para 1.1.)

2.2 Bydd cymorth grant ar gael ar gyfer gwelliannau allanol i adeiladau o fewn yr ardal dan sylw. Mae yna dri chategori lle mae cyllid ar gael:

i. Allanol / Trwsio Amlen i wella effeithlonrwydd ynni'r adeilad. Gall hyn gynnwys atgyweirio waliau allanol, sylfeini, to, ffenestri a drysau.
ii. Gwaith cynnal a chadw allanol a mewnol i wella perfformiad thermol.
iii. Addasiadau a/neu systemau cynhyrchu ynni mwy effeithlon o ffynonellau cynaliadwy (fel paneli solar neu bympiau gwres) lle bo'n briodol.

[1] Ar gael ar wefan yr Awdurdod: https://cynllunio.eryri.llyw.cymru/polisi/ymgynghoriad-cyhoeddus-ardaloedd-cadwraeth. Gweler Adran 6.0 'Asedau Hanesyddol' ym mhob Cynllun Arfarnu a Rheoli Ardal Gadwraeth unigol.

Mae rhestr o waith cymwys ac anghymwys wedi'i chynnwys yn Atodiad 1 ar ddiwedd y ddogfen hon.

2.3 Rhaid i waith cymwys i du allan a chwrtil adeiladau sy'n weladwy o fan cyhoeddus wneud cyfraniad sylweddol at gadw neu wella adeiladau hanesyddol/traddodiadol a'u hatgyweirio a'u hadfer yn gywir yn unol ag arfer cadwraeth da. Rhaid i'r ymgeisydd sicrhau, gan ddefnyddio cyngor proffesiynol priodol yn ôl yr angen, bod y gwaith arfaethedig yn dechnegol addas a bod ganddo gyfanrwydd strwythurol.

2.4 Lle bo'n berthnasol, disgwylir i waith / cynlluniau â chymorth grant arwain at welliant gweledol i edrychiad allanol yr adeilad, a lle bo'n briodol, dylent wneud pob ymdrech i adfer nodweddion coll i'w gwir fanylion hanesyddol. Dylid nodi bod gan yr Awdurdod ddyletswydd o fewn Ardaloedd Cadwraeth i gadw a gwella eu cymeriad arbennig.

2.5 Ni roddir cymorth grant fel arfer ar gyfer elfennau o waith sydd wedi derbyn neu y disgwylir iddo dderbyn cymorth ariannol arall gan yr Awdurdod.

2.6 Ni fydd grantiau ar gael ar gyfer deunyddiau yn unig. Er mwyn cyflawni'r safon gywir o waith, mae'n hanfodol bod contractwyr cymwys sy'n gallu gwneud gwaith i safon uchel yn cael eu defnyddio. Bydd yr Awdurdod yn cymeradwyo Contractwyr cyn cynnig grantiau. Mae'n bwysig nodi bod y contract adeiladu rhwng yr ymgeisydd a'r contractwr ac **nid** yr Awdurdod. Unwaith y bydd ar y safle ni ddylai contractwr cymeradwy gael ei ddisodli gan un arall, heb ganiatâd ysgrifenedig yr Awdurdod ymlaen llaw.

2.7 Ni fydd gwaith a gwblhawyd neu a ddechreuwyd cyn i gynnig grant gael ei dderbyn yn ffurfiol yn cael ei ystyried o dan y prosiect hwn.

2.8 Ar gyfer eiddo lesddaliadol bydd grantiau ar gael i berchnogion neu bobl sy'n dal les gyda 10 mlynedd neu fwy yn weddill ar ddyddiad y cais.

2.9 Atgoffir ymgeiswyr ei bod yn drosedd dymchwel, addasu neu ymestyn adeilad rhestredig neu wneud unrhyw waith sy'n effeithio ar ei gymeriad, oni bai y ceir caniatâd i wneud hynny. Bydd unrhyw wrthrych neu strwythur sydd wedi'i osod ar yr adeilad neu sy'n ffurfio rhan o'i gwrtil yn cael ei drin fel rhan o'r adeilad rhestredig. Mae angen Caniatâd Ardal Gadwraeth ar gyfer dymchwel adeilad / strwythur anrhestredig o fewn ardal gadwraeth, yn ogystal ag ar gyfer datblygiad hysbysebu.

## 3. TREFN TENDRO

3.1 Mae'n **rhaid** i'r holl dendro fod yn gystadleuol, beth bynnag fo gwerth y gwaith.
Mae'n amod o'r grant bod yn rhaid cael o leiaf dri thendr cystadleuol ar gyfer y gwaith cymwys, gan gontractwyr annibynnol, nad ydynt yn perthyn i'w gilydd mewn unrhyw ffurf neu fodd. Mae'r ymgeisydd yn gyfrifol am ddewis y contractwyr a wahoddir i dendro a rhaid iddo fod yn fodlon bod ganddo'r lefel dderbyniol a phrofedig o gymhwysedd a sgiliau Cadwraeth Adeiladau i wneud y gwaith. Os yw'r Awdurdod o'r farn nad yw'r tendrau a gyflwynwyd gyda'r cais yn dderbyniol, gall ofyn am dendrau cystadleuol pellach hyd nes y byddant wedi'u bodloni. Ni fydd unrhyw gais gyda thendrau annerbyniol yn gymwys am grant.

3.2 Os canfyddir gwall wrth gyfrifo, yna gall y contractwr
(i) lynu wrth ei dendr
(ii) addasu'r gwall rhifyddol, neu
(iii) dynnu ei dendr yn ôl

3.3 Ni fydd tendrau unrhyw gwmni / tîm sy'n canfasio aelodau neu staff APCE neu unrhyw un sy'n gweithredu ar ran APCE, naill ai'n uniongyrchol neu'n anuniongyrchol o ran dyfarnu'r cytundeb hwn, yn cael eu hystyried. Ni fydd tendrau unrhyw gwmni sy'n ymgymryd â'r canlynol ychwaith yn cael eu hystyried:
1. Cytuno i beidio â thendro neu gytuno ar werth tendro gyda chwmni arall
2. Cynnig neu gytuno i dalu neu roi swm o arian yn uniongyrchol neu'n anuniongyrchol i unrhyw un wneud neu beidio â gwneud unrhyw beth mewn perthynas â'r tendr hwn. Cedwir yr hawl i wrthod unrhyw gynnig gan APCE.

Rhaid cyflwyno tendrau gyda'r ffurflen ymateb briodol.

Y dyddiad cau ar gyfer cyflwyno'r ffurflen 'Datgan Diddordeb' yw **12yp Ddydd Llun, 6ed Chwefror, 2023**,

Yn ddelfrydol trwy ebost: acaddasc21@eryri.llyw.cymru / cafit4c21@eryri.llyw.cymru

neu, mewn amlen ddienw, wedi'i selio, wedi'i chyfeirio at:

Swyddog Cynllunio Amgylchedd Hanesyddol
Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri,
Swyddfeydd y Parc Cenedlaethol,
Penrhyndeudraeth,
Gwynedd,
LL48 6LF

gyda'r teitl: Cyfrinachol: Tendr / Cynllun Grant Prosiect Ardaloedd Cadwraeth

**Rhaid i bob cais gyrraedd Pencadlys APCE erbyn y dyddiad cau.**

Yna bydd y cynnig 'Datgan Diddordeb' llwyddiannus yn cael ei wahodd gan yr Awdurdod i gyflwyno cynnig ffurfiol, gan gyflwyno'r cais llawn a'r dogfennau gofynnol.
Rhaid i bob tendr gyrraedd Pencadlys APCE erbyn **12yp ddydd Gwener 3ydd Mawrth, 2023.**

## 4. GRANTIAU

4.1 Cymeradwyir grantiau ar sail cynllun gwella, a fydd yn gyntaf wedi ei gytuno gyda'r Awdurdod .

4.2 Mae swm y grant sydd ar gael fel a ganlyn:

Y gronfa brosiect bresennol yw £35,000 ar gyfer 2022-2023. Os bydd y cynllun arfaethedig yn llwyddiannus, efallai y bydd cyllid pellach / ychwanegol ar gael i gefnogi gwaith cymwys ar gyfer blwyddyn ariannol 2023-2024 a 2024-2025. Mae grantiau o dan y gronfa brosiect gyfredol hon ar gael ar gyfer gwella effeithlonrwydd ynni a / neu uwchraddio thermol eiddo / adeiladau cyhoeddus, cymunedol a masnachol o fewn / yn union gerllaw Ardaloedd Cadwraeth dynodedig y Parc Cenedlaethol a / neu y cyfeirir atynt yn y Gwerthusiadau drafft. Gellid dyfarnu grantiau ar gyfradd ymyrraeth o 50% ar gyfer gwaith cymwys. Gall yr Awdurdod gadw'r hawl i gynyddu'r gyfradd ymyrryd ar gyfer gwaith cymwys, lle bo'n briodol.

4.3 Lle bo ymgeiswyr yn fasnachwyr sydd wedi'u cofrestru ar gyfer TAW, ni ellir cymryd TAW i ystyriaeth wrth gyfrifo taliadau grant.

4.4 Ni roddir grantiau'n awtomatig ac maent yn parhau i fod yn ôl disgresiwn yr Awdurdod, sydd hefyd yn cadw'r hawl i benderfynu pa adeiladau a pha waith sy'n gymwys ar gyfer cymorth grant. Er enghraifft, yn ystod y broses asesu rhoddir blaenoriaeth i gynlluniau sy'n helpu i ddod ag eiddo gwag i ddefnydd; sy'n creu gwelliant amgylcheddol sylweddol i'r ardal; a / neu a allai greu swyddi newydd a diogelu swyddi.

## 5. CAIS AM ARIAN GRANT

5.1 Bydd yr Awdurdod yn cynnig grant yn seiliedig ar asesiad o ansawdd y gwaith arfaethedig, gan gynnwys y ddogfennau cyflwyno, yn ogystal â phris/cost. Dylai'r canlynol ddod gyda'r Ffurflen Gais wedi'i chwblhau:

5.1.1 Lluniau anodedig yn dangos yr adeilad presennol a'r gwaith arfaethedig a / neu fanyleb fanwl o'r gwaith a baratowyd gan **bensaer** neu berson arall â **chymwysterau proffesiynol** sy'n dderbyniol i'r Awdurdod.

Gellir gofyn am luniadau llawn a manylion pellach os daw'r angen amdanynt i'r amlwg.

5.1.2 Bydd angen o leiaf dri thendr wedi'u heitemeiddio a'u prisio, gan gontractwyr o statws cydnabyddedig, a fydd yn seiliedig ar luniadau a / neu fanylebau. Bydd y tendrau hyn yn cael eu rhannu'n rhannau i ddangos y costau elfennau unigol o'r gwaith yn fanwl a dylent nodi'r deunyddiau a gynigir. Gan ddibynnu ar gwmpas a natur y gwaith arfaethedig, efallai y bydd angen dyfynbrisiau ychwanegol yn ôl disgresiwn llwyr yr Awdurdod. Bydd yr Awdurdod yn cynnig grant yn seiliedig ar asesiad o'r tendr ansawdd contractio isaf.

Gall yr Awdurdod arfer ei ddisgresiwn i wrthod dyfarnu grant os yw'n ystyried nad yw tendrau yn gystadleuol.

5.1.3 Ffurflen Geirda Contractwyr (GC1, a GC2 lle bo'n briodol), i'w llofnodi gan y Contractwyr.

5.1.4 Tystysgrif Teitl, i'w llofnodi gan gyfreithiwr neu Fanc / Cymdeithas Adeiladu.

5.1.5 Mae angen asesiad o'r perfformiad ynni presennol fel rhan o'r cyflwyniad.

5.1.6 Byddai hefyd yn cael ei ystyried yn werthfawr cyflwyno gwerthusiad o effeithiolrwydd a risgiau'r gwaith arfaethedig, gan ddangos dealltwriaeth o arwyddocâd y nodweddion hanesyddol wrth asesu'r gwerth tystiolaethol, hanesyddol, esthetig a chymunedol fel y nodir yng Nghanllawiau Cadw *Asesiadau Effaith Treftadaeth yng Nghymru* https://cadw.llyw.cymru/cyngor-a-chymorth/cy-placemaking/asesiadau-or-effaith-ar-dreftadaeth/asesiadau-or-effaith-ar

5.2 Rhaid i geisiadau gael pob caniatâd angenrheidiol ee Caniatâd Cynllunio a Chaniatâd Adeilad Rhestredig. Cyfrifoldeb yr ymgeisydd/ymgeiswyr fydd cael caniatâd o'r fath cyn cychwyn ar y safle.

Rhaid hefyd cael caniatadau eraill megis Cymeradwyaeth Rheoliadau Adeiladu, Caniatâd Landlord a Morgeisai cyn dechrau ar y safle.

5.3 Mae'r Awdurdod yn cadw'r hawl i ofyn am wybodaeth ychwanegol yn ôl ei ddisgresiwn. Rhaid i'r ymgeisydd sicrhau bod unrhyw gofnodion ariannol ar gael y gall yr Awdurdod ofyn yn rhesymol amdanynt mewn perthynas â'r gwaith.

5.4 I bwrpas cywirdeb ariannol, cysylltir ag adrannau eraill o'r Awdurdod i weld a yw'r ymgeisydd mewn unrhyw fodd yn ddyledus i'r Awdurdod neu Gyngor Gwynedd. Ni wneir unrhyw gynnig o grant tra bod yr ymgeisydd yn ddyledus yn y fath fodd. Ymhellach, mae'r Awdurdod yn cadw'r hawl i gysylltu â sefydliadau eraill yn ôl yr angen i nodi sefyllfa ariannol yr ymgeisydd. Os bydd unrhyw ddyled yn cael ei nodi, bydd yr asiant penodedig yn cael ei hysbysu o unrhyw resymau ariannol dros beidio â chymeradwyo'r cais am grant.

## 6. CYNNIG A DERBYN GRANT

6.1 Ni roddir grantiau yn awtomatig. Mae'r Awdurdod yn cadw'r hawl i sefydlu blaenoriaethau o fewn cyfanswm y gyllideb sydd ar gael ac i osod telerau ac amodau y mae'n eu hystyried yn briodol.

6.2 Os caiff cais manwl ei gymeradwyo, anfonir **Llythyr Cynnig Grant at yr ymgeisydd** ynghyd â'r **ddogfen telerau ac amodau'r Grant** hon**.** Rhaid i'r gwaith ddechrau o fewn dau fis o ddyddiad y cynnig oni bai y cytunir yn wahanol gan yr Awdurdod a bod hysbysiad dechrau ar y gwaith wedi'i lofnodi gan yr ymgeisydd ar gyfer hysbysiad Parc Cenedlaethol Eryri, **ynghyd** â chopi wedi'i lofnodi o holl erthyglau cytundeb contract JCT gyda chadarnhad o'r dyddiadau dechrau a chwblhau.

6.3 Os cynigir grant rhaid ei dderbyn yn ffurfiol yn ysgrifenedig cyn i unrhyw waith ddechrau gan yr ymgeisydd sy'n llofnodi'r ffurflen derbyn grant a'r ddogfen telerau ac amodau grant hon a dylid dychwelyd y copi gwreiddiol ohono i'r Awdurdod o fewn 14 diwrnod o ddyddiad y llythyr cynnig grant. Os na chydymffurfir â'r amod hwn, yna gellir ystyried bod yr ymgeisydd wedi gwrthod y cynnig grant. Rhaid i'r ffurflen derbyn grant gael ei llofnodi gan yr ymgeisydd ac nid gan yr asiant penodedig sy'n gweithredu ar ei ran.

6.4 Dim ond mewn amgylchiadau eithriadol a lle mae'r **Awdurdod** wedi cael yr holl wybodaeth ddiweddaraf, y bydd unrhyw wariant ychwanegol wrth wneud y gwaith yn cael ei ystyried, ar ôl derbyn y cynnig grant a dim ond ar sail Cyfarwyddyd Pensaer neu Orchymyn Amrywio a gyhoeddwyd yn unol â'r gofynion y math safonol o gontract adeiladu.

6.5 Mae'n amod grant bod y gwaith cymwys yn cael ei wneud o fewn y cyfnod penodol a nodir yn y Llythyr Cynnig Grant. Fodd bynnag, gall APCE ymestyn y cyfnod hwn os gwêl yn dda, yn enwedig os yw'n fodlon na ellir, neu na ellid bod wedi gwneud, y gwaith cymwys heb wneud gwaith arall na ellid bod wedi'i ragweld yn rhesymol pan wnaed y cais.

## 7. GWEITHREDU GWAITH CYMERADWY

7.1 Bydd yr ymgeisydd yn llofnodi ac yn cwblhau'r telerau ac amodau hyn, pob contract a llythyr penodi cyn i'r gwaith ddechrau ar y safle. Bydd pob contract yn:

a) darparu telerau ac amodau rhesymol ar gyfer y gwaith, a fydd yn cynnwys graddfeydd amser, telerau talu, ac ati.
b) cael ei chyflawni fel gweithred lle mae swm y gwaith dan sylw yn fwy na £25,000 (oni bai y cytunir yn wahanol gyda'r Awdurdod hwn).
c) gwahanu costau gwaith cymwys oddi wrth unrhyw gostau anghymwys.

Tra bo'r gwaith yn mynd rhagddo, rhaid i'r ymgeisydd gadw yswiriant digonol ar yr eiddo hwnnw, y gwaith sy'n cael ei wneud ac unrhyw ddeunyddiau a nwyddau ansefydlog a gludir iddo, rhag unrhyw golled neu ddifrod sy'n codi o ganlyniad i'r gwaith ar y safle. Dylid cadw yswiriant yn enwau'r perchennog, yr ymgeisydd a'r contractwr ar y cyd. Rhaid defnyddio enillion unrhyw hawliad o dan yr yswiriant tuag at gost adfer y gwaith a'r eiddo perthnasol, cywiro unrhyw golled neu ddifrod ac amnewid unrhyw nwyddau neu ddeunyddiau a ddifrodwyd, yn ôl yr angen. Mewn achos o ladrad, colled neu ddifrod, rhaid gwneud iawn am yr eiddo. Bydd yr Awdurdod yn cael copi o'r Polisi Yswiriant cyn i unrhyw waith ddechrau ar y safle.

7.2 Rhaid i'r gwaith ddechrau ar y safle o fewn dau fis o dderbyn y grant yn ysgrifenedig (oni bai y cytunir yn wahanol gan yr Awdurdod hwn), a rhaid ei gwblhau erbyn yr amser a nodir yn y llythyr cynnig grant.

Rhaid i'r gwaith gael ei wneud yn gwbl unol â'r manylion a geir yn y fanyleb a/neu luniadau cymeradwy, y telerau ac amodau a gynhwysir yn y ddogfen hon, unrhyw amodau a osodir gan statud ac unrhyw delerau ac amodau pellach a nodir yn y llythyr cynnig grant. Mae hyn hefyd yn cyfeirio at unrhyw ganiatâd cynllunio, adeilad rhestredig ac ardal gadwraeth.

7.3 Ni fydd yr Awdurdod yn gyfrifol am reoli'r gwaith, gan gynnwys, heb gyfyngiad, dyluniad y gwaith, ymchwiliadau i'r gwaith ac yn ymwneud ag ef, cyflawni'r gwaith a goruchwylio'r gwaith. Mae'r ymgeisydd yn cydnabod yn benodol mai'r ymgeisydd yn unig fydd yn gyfrifol am yr holl faterion sy'n ymwneud â'r gwaith (gan gynnwys, heb gyfyngiad, dyluniad y gwaith, cyflawni'r gwaith a chydymffurfio â Rheoliadau Dylunio a Rheoli Adeiladu (CDM) 2015). Bydd yr ymgeisydd hefyd yn gyfrifol am sicrhau nad oes unrhyw anafiadau corfforol na marwolaethau, peryglon i iechyd neu ddiogelwch nac unrhyw golledion ariannol yn deillio o'r gwaith neu mewn cysylltiad ag ef. Nid yw'r ffaith bod unrhyw fater penodol angen caniatâd neu gymeradwyaeth yr Awdurdod o dan y telerau ac amodau a nodir yn y ddogfen hon neu'r llythyr cynnig grant yn creu nac yn awgrymu unrhyw ddyletswydd gofal ar ran yr Awdurdod tuag at yr ymgeisydd nac unrhyw berson arall.

7.4 Tra bod yr Awdurdod yn barod i gynnig cyngor cyffredinol, dylai'r ymgeisydd sicrhau ei fod yn fodlon gyda gwaith y contractwr. Gall yr ymgeisydd droi at y contractwr ynghylch diffygion ac nid yr Awdurdod.
Dylai'r ymgeisydd gymryd i ystyriaeth unrhyw sylwadau y gall yr Awdurdod hwn eu gwneud ynghylch gwneud y gwaith ar yr eiddo.

7.5 Rhaid i unrhyw berson a gyflogir gan yr ymgeisydd mewn cysylltiad â gwaith grant (ee asiant, contractwr, adeiladwr ac ati) fod yn ymwybodol o'r telerau ac amodau hyn ac unrhyw amodau a osodwyd yn y llythyr cynnig grant.

7.6 Os canfyddir yn ystod y gwaith ei bod yn anymarferol neu'n annymunol i wneud y gwaith yn gwbl unol â'r hyn a gymeradwywyd, yna dim ond ar ôl derbyn caniatâd ysgrifenedig penodol gan yr Awdurdod y gellir gwneud unrhyw newidiadau. Mae hyn hefyd yn cyfeirio at unrhyw ganiatâd cynllunio, adeilad rhestredig ac ardal gadwraeth sydd ei angen a / neu'n ymwneud ag ef.

7.7 Bydd gan swyddogion yr Awdurdod yr hawl i archwilio'r eiddo a'r gwaith cyn, yn ystod ac ar ôl cwblhau'r gwaith, tynnu lluniau neu wneud cofnod fideo o gynnydd. Bydd hawlfraint unrhyw ffotograffau neu fideos yn aros gyda'r Awdurdod.
Bydd yr ymgeisydd yn cymryd y camau angenrheidiol i fonitro cynnydd y gwaith ar y safle, ac yn darparu i'r Awdurdod unrhyw wybodaeth sydd ei hangen i sicrhau bod y gwaith wedi'i wneud yn unol â'r fanyleb a/neu luniadau.

7.8 Rhoddir gwybod i'r Awdurdod am ddechrau unrhyw waith, neu unrhyw oedi gyda'i gynnydd neu gyda'i gwblhau. Rhaid gwneud y gwaith cyn gynted â phosibl ac erbyn y dyddiad cau a nodir yn y llythyr cynnig grant. Gall oedi afresymol arwain at dynnu'r grant yn ôl.

7.9 Bydd yr ymgeisydd neu ei asiant yn cofnodi nifer y gweithwyr sy'n gwneud gwaith cadwraeth ar yr adeilad o dan sylw. Dylai hyn gynnwys gweithwyr y Prif Gontractwyr a'r Is-gontractwyr, arbenigwyr Cadwraeth ac archeolegwyr ac ati.

7.10 Mae'r ymgeisydd yn cytuno i'r Awdurdod gynnal arolwg archeolegol o'r adeilad dan sylw yn ystod y gwaith adfer os yw'r Awdurdod yn barnu bod cyfiawnhad digonol dros wneud hynny.

7.11 Mae'r ymgeisydd yn cytuno y gellir cynnal diwrnod agored i'r cyhoedd yn yr adeilad yn ystod neu ar ôl cwblhau'r gwaith adfer (dyddiad ac amser i'w gytuno gan y ddau barti).

## 8. TALU GRANT

8.1 Telir grant i'r ymgeisydd, pan fydd ei asiant wedi cyflwyno anfonebau â derbynebau, neu ar ôl cyflwyno tystysgrif, wedi'i hardystio gan berson proffesiynol.
Gellir gwneud taliadau interim, gan gadw 10% hyd nes y derbynnir y cyfrif terfynol y cytunwyd arno. Dim ond ar ôl derbyn cais am daliad ardystiedig y gwneir y rhain.

8.2 Bydd y grant yn cael ei dalu ar yr amod bod yr ymgeisydd wedi cydymffurfio â thelerau ac amodau'r Prosiect hwn ac wedi cwblhau'r gwaith i foddhad yr Awdurdod. Bydd gan Swyddogion yr Awdurdod y pŵer i atal taliad grant am unrhyw waith anfoddhaol, deunyddiau ac ati ac yn cael ei ystyried nad yw'n unol â'r lluniadau / manyleb a gymeradwywyd hyd nes y bydd gwaith o'r fath wedi'i gwblhau i'w boddhad.

Os bydd yr ymgeisydd yn cwblhau'r gwaith heb wario'r swm llawn o'i grant, rhaid ad-dalu'r cyfryw ran o'r grant i'r Awdurdod.

## 9. YSWIRIANT

9.1 Mae angen i'r Awdurdod ddiogelu'r buddsoddiad o arian cyhoeddus y mae Llywodraeth Cymru a'r Awdurdod yn ei gyfrannu at y gwaith gwella ar eich adeilad. I gyflawni hyn, byddwn yn gofyn i chi, gyda'ch contractwyr, i drefnu yswiriant ar gyfer unrhyw eiddo, gwaith, deunyddiau a nwyddau sydd wedi'u cynnwys yn y cynllun gwaith. Rhaid yswirio pob un o'r rhain am eu gwerth adfer llawn yn erbyn lladrad, colled neu ddifrod.

9.2 Os yw'r adeilad yn cael ei effeithio gan dân, mellt, difrod stormydd neu lifogydd i'r graddau na allwch chi gyflawni'r gwaith a nodir o dan delerau eich grant yn hirach, efallai y bydd yn rhaid i'r Awdurdod ystyried tynnu'r grant yn ôl a hawlio'n ôl unrhyw arian grant sydd eisoes wedi'i dalu.

9.3 Fel arfer, perchennog yr adeilad neu'r perchennog a'r prif gontractwr ddylai ddal yr yswiriant. Fodd bynnag, mewn achosion lle mae'r adeilad yn wag ar hyn o bryd ac o dan reolaeth y prif gontractwr yn unig am gyfnod y gwaith, gall fod yn dderbyniol i'r yswiriant gael ei ddal gan y contractwr yn unig. Dylid trafod hyn a chytuno arno'n ysgrifenedig gyda'r Awdurdod fel rhan o'r

broses ymgeisio am grant. Rhaid i chi roi copi o'ch tystysgrif yswiriant i ni cyn i'r gwaith ddechrau ar y safle.

9.4 Bydd y Grantî am gyfnod o 5 mlynedd o’r dyddiad cwblhau yn yswirio’r eiddo hyd at ei werth adfer llawn neu amnewid yn erbyn pob risg yswiriadwy gyda chwmni yswiriant cyfrifol, a bydd yn adfer yr eiddo sy’n derbyn cymorth grant i foddhad yr Awdurdod gan ddefnyddio’r cyfryw arian yswiriant os oes angen.

**10. ATGYWEIRIO A CHYFLWR**

10.1 Mae'n ofynnol i'r ymgeisydd am gyfnod o 5 mlynedd o'r dyddiad cwblhau i gadw'r eiddo a'r gwaith sy'n derbyn cymorth grant mewn cyflwr da a sylweddol.

10.2 Bydd yr ymgeisydd a'r asiant, ar y cyd â'r Awdurdod, yn cynhyrchu Cynllun Cynnal a Chadw sydd gymesur â'r gwaith sy'n benodol i'r eiddo dan sylw. Bydd copi o Gynllun Cynnal a Chadw wedi'i gwblhau yn cael ei gyflwyno i'r Awdurdod.

10.3 Yn ogystal, bydd yr Awdurdod yn trefnu diwrnodau hyfforddiant Cynnal a Chadw Adeiladau ar gyfer perchnogion eiddo. Anogir pawb sy'n derbyn grantiau i fynychu un neu fwy o'r diwrnodau hyfforddi hyn.

10.4 Yn dilyn cwblhau'r gwaith ni fydd yr eiddo wedyn yn cael ei newid mewn unrhyw ffordd, heb gymeradwyaeth yr Awdurdod. Mae hyn hefyd yn cyfeirio at y caniatadau cynllunio, adeilad rhestredig ac ardal gadwraeth sy’n ofynnol.

**11 AD-DALIAD GRANT**

11.1 Os byddwch yn penderfynu gwerthu neu drosglwyddo fel arall perchnogaeth eich buddiant cyfan yn yr Eiddo ("gwerthiant") o fewn 5 mlynedd o'r dyddiad Cwblhau Ymarferol, rhaid i chi hysbysu'r Awdurdod ar unwaith, ac ar ôl ei gwblhau neu cyn gynted â phosibl ar ôl gwerthu'r eiddo yn talu'r cyfan neu gyfran o'r grant a dderbyniwyd i'r Awdurdod.

Cyfrifir y swm ad-daladwy fel a ganlyn:

| Blwyddyn y contract | Swm y grant i'w adennill |
|---|---|
| 0-1 | Hyd at 100% |
| 1-2 | Hyd at 80% |
| 2-3 | Hyd at 60% |
| 3-4 | Hyd at 40% |
| 4-5 | Hyd at 20% |

11.2 Oni bai bod yr Awdurdod yn cytuno fel arall, os byddwch yn gwaredu buddiant yn yr eiddo ac eithrio drwy werthu (er enghraifft gwerthu rhan, prydles neu drwydded) ("gwarediad") rhaid i chi ar ôl cwblhau'r gwarediad dalu i'r Awdurdod swm sy'n dwyn yr un gyfran â'r swm a gyfrifwyd yn unol ag 11.1.

11.3 Mae Cymal 11 yn cael ei orfodi gan yr Awdurdod er gwaethaf unrhyw gytundeb i werthu neu warediad gan yr Awdurdod am bris is (er enghraifft gwarediad i elusen).

11.4 Bydd y grant yn cael ei ad-dalu’n llawn ar gais os bydd unrhyw un o’r digwyddiadau canlynol yn digwydd:

i. Canfyddir bod yr ymgeisydd wedi gwneud unrhyw gamliwiad mewn cysylltiad â’r cais.
ii. Bod yr ymgeisydd wedi torri unrhyw ddarpariaethau yn yr amodau uchod.
iii. Nid yw'r eiddo'n cael ei adfer o fewn 12 mis i unrhyw ddigwyddiad sy'n arwain at golled neu ddifrod i'r eiddo.

Os bydd y grant yn cael ei ad-dalu, ni fydd yr amodau yn berthnasol mwyach.

## 12 ASEINIAD

12.1 Mae unrhyw gynnig grant yn bersonol i'r ymgeisydd ac ni fydd gan yr ymgeisydd yr hawl i aseinio'n gyfan gwbl neu'n rhannol unrhyw un o'i hawliau o dan y cytundeb hwn heb ganiatâd ysgrifenedig yr Awdurdod ymlaen llaw.

## 13 CYHOEDDUSRWYDD

13.1 Bydd gan yr Awdurdod yr hawl i wneud manylion y grant at ddibenion hyrwyddo yn gyhoeddus, mewn modd y gwêl yn dda.

13.2 Bydd gan yr Awdurdod yr hawl i ofyn i'r Grantî godi, cadw a chynnal arwydd / baner ar safle'r prosiect yn datgan eu cymorth gyda'r prosiect yn ystod cyfnod y gwaith. Bydd yr arwydd / baner yn cael ei ddarparu gan yr Awdurdod ar ei gost ei hun, mewn lleoliad i'w arddangos y cytunwyd arno gan y ddau barti ar ddechrau'r gwaith.

## 14 DI-ILDIO

14.1 Ni fydd unrhyw fethiant gan yr Awdurdod i arfer neu unrhyw oedi gan yr Awdurdod wrth arfer unrhyw hawl, pŵer neu fraint yn gweithredu fel ildiad o'i hawliau.

## 15 DATGANIAD

15.1 Cytunaf fod y Telerau a'r Amodau hyn yn berthnasol i'm cais am unrhyw gyfraniad grant Cynllun Grantiau Ardaloedd Cadwraeth a wneir yn dilyn fy nghais sydd ynghlwm yma.

| | |
|---|---|
| **Cyfeiriad yr Eiddo:** | |
| | |
| | |
| **Arwyddwyd gan:** | (Ymgeisydd) |
| **Dyddiad** | |

## CYNLLUN GRANT DATGARBONEIDDIO CYNALIADWY ARDALOEDD CADWRAETH PARC CENEDLAETHOL ERYRI (EIDDO / ADEILADAU CYHOEDDUS, CYMUNEDOL A MASNACHOL) - ATODIAD 1

### Gwaith sy'n Gymwys / Ddim yn Gymwys am Gymorth Grant

(Nid yw'r rhestr hon yn hollgynhwysfawr)

| | YN GYMWYS | ANGHYMWYS |
|---|---|---|
| **Ffioedd:** | * Penseiri Proffesiynol, Peiriannydd Strwythurol neu Ffioedd Syrfëwr | * Ffioedd Cyfreithiol |
| **Gwaith Allanol** | * Atgyweirio to a simnai<br>* Adnewyddu wynebfwrdd ac estyll tywydd<br>* Ail -bwyntio, rendrad, glanhau cerrig, ac ati.<br>* Darparu / adnewyddu Nwyddau dŵr glaw haearn bwrw<br>* Atgyweiriadau i / amnewid ffenestri a drysau<br>* Peintio ac addurno yn dilyn gwaith atgyweirio arall<br>* Llogi sgaffaldiau<br>* Cynteddau | * Arwyddion wedi'u goleuo<br>* Caeadau ffenestri |
| **Gwaith Amgylcheddol** | * Gwaith draenio<br>* Waliau<br>* Tirlunio | |

Mae Cyngor ar Fesurau Effeithlonrwydd Ynni mewn Ardaloedd Cadwraeth – Canllaw Cynllunio ac Ymarferol ar gael ar wefan yr Awdurdod drwy'r ddolen isod: https://snowdonia.gov.wales/wp-content/uploads/2022/09/16-Cyngor-Camau-Gwella-Effeithlonrwydd-Ynni.pdf?_gl=1*demslv*_ga*NDI3MzQxMTI2LjE2NzEwMDM1Nzk.*_ga_2SRYFPWD50*MTY3MzUyNjEzMS4xOS4wLjE2NzM1MjYxMzEuMC4wLjA.

Fel y nodir yn y canllawiau, yn ogystal ag arweiniad gan y Gynghrair Adeiladau Traddodiadol Cynaliadwy (STBA)[2], dylai ymgeiswyr ddangos eu bod yn deall yr adeilad a bod ganddynt ymagwedd adeilad cyfan wrth gynnig gwaith.

[2] https://stbauk.org/whole-house-approach/#